Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael a'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **20 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |

**Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael a'r UE) 2019**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o Reoliadau Llywodraeth y DU sy'n ymwneud ag iechyd planhigion – heblaw am y dirymiadau a nodir isod, nid ydynt yn diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.

**Dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir**

**Rheoliadau'r UE**

- Rheoliad y Comisiwn Rhif (EC) 1040/2002 yn sefydlu rheolau manwl ar gyfer gweithredu'r darpariaethau sy'n ymwneud â dyrannu cyfraniad ariannol oddi wrth y Gymuned ar gyfer rheoli iechyd planhigion, ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 2051/97.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1756/2004 yn pennu'r amodau penodol ar gyfer y dystiolaeth sy'n ofynnol a'r meini prawf ar gyfer sut ac i ba raddau i leihau gwiriadau iechyd ar blanhigion a chynhyrchion planhigion penodol neu wrthrychau eraill a restrir yn Rhan B o Atodiad V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 690/2008 yn cydnabod ardaloedd gwarchod yn y Gymuned sy'n agored i risgiau penodol o ran iechyd anifeiliaid.

**Penderfyniadau'r UE**

- Penderfyniad y Comisiwn 91/261/EEC yn cydnabod nad oes unrhyw *Erwinia amylovora* (Burr.) Winsl. et al. yn Awstralia.
- Penderfyniad y Comisiwn 93/360/EEC yn awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 93/360/EEC mewn perthynas â phren *Thuga* L. sy'n tarddu o Ganada.
- Penderfyniad y Comisiwn 93/365/EEC yn awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 77/93/EEC mewn perthynas â phren conwydd wedi'i drin â gwres sy'n tarddu o Ganada, ac yn sefydlu manylion y system ddangosyddion i'w chymhwyso i'r pren sydd wedi'i sychu mewn odyn.
- Penderfyniad y Comisiwn 93/422/EEC yn awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 77/93/EEC

mewn perthynas â phren conwydd wedi'i sychu mewn odyn sy'n tarddu o Ganada, ac yn sefydlu manylion y system ddangosyddion i'w chymhwyso i'r pren sydd wedi'i sychu mewn odyn.

- Penderfyniad y Comisiwn 93/423/EEC yn awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 77/93/EEC mewn perthynas â phren conwydd wedi'i sychu mewn odyn sy'n tarddu o Unol Daleithiau America, ac yn sefydlu manylion y system ddangosyddion i'w chymhwyso i'r pren sydd wedi'i sychu mewn odyn.
- Penderfyniad y Comisiwn 98/109/EC yn awdurdodi Aelod-wladwriaethau i gymryd mesurau brys dros dro i atal *Thrips palmi* Karny rhag lledaenu mewn perthynas â Gwlad Thai.
- Penderfyniad y Comisiwn 2002/499/EC yn awdurdodi rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â chorachu mewn ffordd naturiol neu artiffisial blanhigion *Chamaecyparis* Spach, *Juniperus* L. a *Pinus* L., sy'n tarddu o Weriniaeth Korea.
- Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC ar fesurau ffytoiechydol brys dros dro er mwyn atal *Phytophthora ramorum* Werres, De Cock & Man in ‘t Veld sp. Nov. rhag cael ei gyflwyno i'r Gymuned a lledaenu yno.
- Penderfyniad y Comisiwn 2002/887/EC yn awdurdodi rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â chorachu mewn ffordd naturiol neu artiffisial blanhigion *Chamaecyparis* Spach, *Juniperus* L. a *Pinus* L., sy'n tarddu o Japan.
- Penderfyniad y Comisiwn 2003/248/EC yn awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu dros dro ddarpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion mefus (*Fragaria* L.), y bwriedir eu plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o'r Ariannin.
- Penderfyniad y Comisiwn 2003/249/EC yn awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu dros dro ddarpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion mefus (*Fragaria* L.), y bwriedir eu plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o Chile.
- Penderfyniad y Comisiwn 2004/200/EC ar fesurau i atal feirws Pepino mosaic rhag cael ei gyflwyno i'r Gymuned a lledaenu yno.
- Penderfyniad y Comisiwn 2005/51/EC yn awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â mewnforio pridd wedi ei halogi â phlaladdwyr neu lygryddion organig parhaus er mwyn eu dihalogi.
- Penderfyniad y Comisiwn 2005/359/EC yn darparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlociau derw (*Quercus* L.) â rhisgl arnynt, sy'n tarddu o Unol Daleithiau America.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2011/787/EU yn awdurdodi Aelod-wladwriaethau i gymryd mesurau brys dros dro i atal *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. rhag lledaenu, mewn perthynas â'r Aifft.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2013/413/EU yn awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â thatws, ac eithrio tatws y bwriedir eu plannu, sy'n tarddu o ranbarthau Akkar a Bekaa yn Libanus,

- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2013/780/EU yn darparu ar gyfer rhanddirymu Erthygl 13(1)(ii) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phren *Quercus* L., *Platanus* L. ac *Acer saccharum* Marsh. wedi ei lifio a heb risgl sy'n tarddu o Unol Daleithiau America.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2014/917/EU yn nodi rheolau manwl ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â hysbysu am organeddau niweidiol ac am gamau a gymerwyd gan Aelod-wladwriaethau neu y maent yn bwriadu eu cymryd.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2015/179 yn awdurdodi
- Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â deunydd pecynnu o bren conwydd (Coniferales) ar ffurf blychau bwledi a chetris sy'n tarddu o Unol Daleithiau America o dan reolaeth Adran Amddiffyn yr Unol Daleithiau.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2015/1199 yn cydnabod nad oes *Clavibacter michiganensis* ssp. sepedonicus (Spieckermann and Kotthoff) Davis et al. ym Mosnia-Herzegovina.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2017/198/EU mewn perthynas â mesurau i atal *Pseudomonas syringae* pv. actinidiae Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyuma & Goto rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu yno.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2018/638 yn sefydlu mesurai brys i atal yr organedd niweidiol *Spodoptera frugiperda* (Smith) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu yno.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae iechyd planhigion yn faes lle y mae cyfrifoldeb wedi cael ei ddatganoli. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**
Mae angen y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth gyfredol y DU ar Iechyd planhigion yn parhau i weithredu'n effeithiol os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Maent yn darparu sylfaen ar gyfer gweithredu marchnad fewnol ar gyfer deunydd a reoleiddir o blanhigion drwy ddarparu un rhestr o blâu ac organeddau lletyol a reoleiddir er mwyn gwarchod bioddiogelwch a helpu i gynnal marchnad fewnol y DU.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau ar gael yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/77D2MmcT

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE.